Advent Newsletter 2015

It's our great privilege as Cytûn, at a difficult time for our world, to offer our gratitude and Christmas blessings. We reflect in particular on the plight of refugees seeking sanctuary in our midst and the troubles of war torn places such as Syria. We pray with renewed vigour for justice and peace.

It's pleasing to record that Cytûn has quietly delivered its agreed workplan during 2015. It has also delivered its outcomes within its financial means. We are grateful to all our member churches, bodies in association, local groups and partners for their incredible work and support. Local church groups continue to receive Cytûn's support, national acts of witness have been enabled and promoted, courses such as the Welcome to Wales course for ministers who are new to Wales have been held successfully and liturgies have been prepared for organisations such as the Urdd (Welsh League of Youth.) We thank Ynyr Roberts and Sasha Perriam for their good work concerning these activities.

Cytûn allows capacity to respond to unexpected and sometimes urgent issues. This Christmas, Cytûn has prepared extensive briefing notes on the refugee crisis. Aled Edwards has worked closely with Welsh public bodies and the Home Office regarding the plight of refugees internationally and within Wales. He has worked alongside partners within Churches Together in Britain and Ireland (CTBI) visiting churches serving refugees on the border between Greece and Macedonia at a place called Idomeni.

Cytûn continues to support the Free Church Council for Wales and the Commission of the Covenanted Churches. It also provides the secretariat for the Interfaith Council for Wales. During the build up to Christmas, Cytûn has supported Wales' ethnic minority congregations as they gather to worship and bring the rich diversity of the world wide church to Wales.

Gethin Rhys continues to serve the churches in the public policy arena by preparing regular policy briefings on devolved and other issues. Of late, he has focused very much on highlighting constitutional difficulties with the draft Wales Bill, responding to proposed changes to the Welsh schools' curriculum and preparing for the 2016 Welsh elections. He has also focused on church property issues through the legislative prism of the Historic Environment (Wales) Bill. In this regard, he has worked closely with church property officers. Of great pastoral interest is the Welsh Government's consultation on the night economy. The pioneering work of Street Pastors has been noted in this context.

Cytûn is indebted to Sally Thomas for all the work she does for Cytûn: encouraging local ecumenism, furthering good race relations and progressing interfaith projects throughout Wales. We thank God for her ministry and the generosity of the United Reformed Church in offering Cytûn part of her time and energy.

May God bless us all this Christmas.

Cylchlythyr yr Adfent 2015

Ar adeg anodd ar gyfer ein byd, mae'n anrhydedd mawr i ni, fel Cytûn, gynnig ein diolchgarwch a bendithion y Nadolig. Rydym yn meddwl yn arbennig ynghylch cyflwr ffoaduriaid sy'n chwilio am loches yn ein plith, ac am helyntion llefydd fel Syria, mannau lle mae rhyfel wedi eu rhwygo. Gweddïwn gydag egni newydd dros gyfiawnder a heddwch.

Mae'n braf gallu cofnodi bod Cytûn wedi cyflwyno ei gynllun gwaith cytunedig yn dawel yn ystod 2015. Hefyd, mae wedi cyflwyno ei ddeilliannau o fewn ei allu ariannol. Rydym yn ddiolchgar i'r holl eglwysi sy'n aelodau, y cyrff cysylltiedig, grwpiau lleol a phartneriaid, am eu gwaith anhygoel a'u cefnogaeth. Mae grwpiau eglwysig lleol yn parhau i dderbyn cefnogaeth Cytûn, galluogwyd a hyrwyddwyd gweithgareddau cenedlaethol o dystiolaeth, ac mae cyrsiau fel y cwrs Croeso i Gymru, ar gyfer gweinidogion sy'n newydd i Gymru, wedi cael eu cynnal yn llwyddiannus, a litwrgïau wedi cael eu paratoi ar gyfer sefydliadau fel Urdd Gobaith Cymru. Rydym yn diolch i Ynyr Roberts a Sasha Perriam am eu gwaith da yn ymwneud â'r gweithgareddau hyn.

Mae Cytûn yn caniatáu'r modd o ymateb i faterion annisgwyl, a materion brys ambell waith. Y Nadolig hwn, mae Cytûn wedi paratoi nodiadau briffio helaeth ar argyfwng y ffoaduriaid. Mae Aled Edwards wedi gweithio'n agos gyda chyrff cyhoeddus yng Nghymru a'r Swyddfa Gartref ynglŷn â chyflwr ffoaduriaid yn rhyngwladol ac yng Nghymru. Mae wedi gweithio ochr yn ochr â phartneriaid o fewn Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon gan ymweld ag eglwysi sy'n gwasanaethu ffoaduriaid ar y ffin rhwng gwlad Groeg a Macedonia, mewn lle o'r enw Idomeni.

Mae Cytûn yn parhau i gefnogi Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru a Chomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol. Mae hefyd yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer Cyngor Rhyng-ffydd Cymru. Yn ystod y cyfnod yn arwain at y Nadolig, mae Cytûn wedi cefnogi cynulleidfaoedd lleiafrifoedd ethnig Cymru wrth iddyn nhw ddod ynghyd i addoli a dod ag amrywiaeth gyfoethog yr eglwys fyd-eang i Gymru.

Mae Gethin Rhys yn parhau i wasanaethu'r eglwysi yn yr arena polisi cyhoeddus drwy baratoi briff polisïau ar faterion datganoledig a materion eraill yn rheolaidd. Yn ddiweddar, mae wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar amlygu anawsterau cyfansoddiadol gyda drafft Mesur Cymru, gan ymateb i newidiadau arfaethedig i faes llafur ysgolion Cymru a pharatoi ar gyfer yr etholiadau yng Nghymru yn 2016. Mae hefyd wedi canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag eiddo eglwysig drwy brism deddfwriaethol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Yn hyn o beth, mae wedi gweithio'n agos gyda swyddogion eiddo eglwysig. Eitem o ddiddordeb bugeiliol mawr yw ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar economi'r nos. Mae gwaith arloesol Bugeiliaid y Stryd wedi ei nodi yn y cyd-destun hwn.

Mae Cytûn yn ddyledus i Sally Thomas am yr holl waith y mae'n ei wneud ar gyfer Cytûn: yn annog eciwmeniaeth leol, yn hybu cysylltiadau hiliol da ac yn hyrwyddo prosiectau rhyng-ffydd i ddatblygu ledled Cymru. Rydym yn diolch i Dduw am ei gweinidogaeth ac am haelioni'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig yn cynnig rhan o'i amser a'i hegni i Cytûn.

Boed i Dduw ein bendithio ni i gyd y Nadolig hwn.

Nadolig Llawen
Merry Christmas

gan staff Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
from the staff of Cytûn: Churches Together in Wales

Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru - 58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3UR
Cytûn: Churches Together in Wales - 58 Richmond Road, Cardiff CF24 3UR
+44 (0)29 2046 4204 | post@cytun.org.uk | www.cytun.org.uk

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071
Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 05853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071